POLISI GOSOD MODURDY

CYNNWYS

1. TAFLEN ADOLYGU

2. PWRPAS

3. SGÔP

4. CYFRIFOLDEBAU

5. MANYLION Y POLISI

6. RISG

7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

8. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU

9. CYFEIRNODAU

10. COFNODION

11. ADOLYGU

1. TAFLEN ADOLYGU

Rhifyn	Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad Rhannu
Rhifyn 0	Polisi Newydd	Mari Pritchard	04 Mai 2016

2. PWRPAS

2.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut y bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn gosod modurdai gwag.

3. SGÔP

3.1 Mae modurdai CCG yn cael eu diffinio fel y modurdai hynny sydd o fewn stoc CCG ac yn cael eu rhentu allan fel tenantiaethau wythnosol.

3.2 Mae modurdai CCG wedi eu lleoli ar hyd a lled Gwynedd yn bennaf ar stadau tai CCG.

3.3 Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys modurdai sydd wedi eu prydlesu ar sail prydlesau tymor hir

4. CYFRIFOLDEBAU

4.1 Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cymunedau a Chwsmeriaid yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn effeithiol a bod y staff wedi eu hyfforddi yn briodol yn y gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r polisi.

5. MANYLION Y POLISI

5.1 Proses gwneud cais am fodurdy / gosod

5.1.1 Bydd ceisiadau a gosodiadau y modurdai yn cael eu gweinyddu gan wasanaeth Gosod CCG.

5.1.2 Bydd ceisiadau am fodurdy CCG yn cael ei wneud drwy gwblhau'r 'Ffurflen gais am Fodurdy' (ALLf56) safonol.

5.1.3 Bydd rhestr aros o holl ymgeiswyr am fodurdy yn cael ei gadw gan y gwasanaeth Gosod.

5.2 Blaenoriaethau Gosod Modurdy

5.2.1 **Bydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:**

- Blaenoriaeth 1 - tenantiaid presennol (ar yr amod bod eu cyfrif rhent yn glir ac nad oes unrhyw orchymyn ildio meddiant wedi ei gychwyn gan CCG am dorri amod tenantiaeth)
- Blaenoriaeth 2 - cyn denantiaid CCG a/neu Cyngor Gwynedd sydd wedi prynu eu heiddo naill ai drwy Hawl i brynu/Hawl i gaffael.
- Blaenoriaeth 3 - perchnogion preifat a/neu denantiaid preifat

5.2.2 Pe bai mwy na dau ymgeisydd ym mhob categori 1, 2 neu 3, byddai'r flaenoriaeth yn cael ei roi yn ôl dyddiad derbyn y ceisiadau.

5.2.3 Rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr sy'n ceisio ail fodurdy os nad oes ymgeiswyr ar restr aros Modurdy o'r rhestr blaenoriaeth yn 5.2.1 uchod.

5.3 Adolygu ceisiadau

5.3.1 Bydd ceisiadau am fodurdai yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau fod y wybodaeth sydd gan CCG yn gyfredol ac yn gywir a bod y galw am y modurdai hefyd yn gyfredol.

5.4 **Adolygu ceisiadau**

5.4.1 I ganslo cais am fodurdy byddai angen i'r ymgeisydd fynegi hynny; byddai peidio ag ymateb i adolygiad o'r cais hefyd yn arwain at ganslo.

5.5 **Telerau ac Amodau**

5.5.1 Mae Cytundeb Tenantiaeth Modurdy CCG (ALLf63c) yn amlinellu'r Telerau a'r Amodau ar gyfer gosod modurdy i'r tenant.

5.6 **Talu eich rhent**

5.6.1 Mae R&Ipol01 Polisi Ôl-ddyled Rhent yn amlinellu sut y bydd CCG yn delio gydag ôl ddyledion rhent modurdy.

5.6.2 Mae'n ofynnol i bob tenant newydd ar gyfer modurdy dalu eu rhent drwy ddebyd uniongyrchol.

6. RISG

6.1 Y risg i enw da CCG fod staff CCG yn methu â darparu proses agored, glir a chyson ar gyfer gosod modurdai.

6.2 Y risg i hyfywdra ariannol CCG pe byddai modurdai'n aros yn wag.

7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

7.1 Mae CCG Cyf. yn cydnabod anghenion poblogaeth amrywiol a bydd bob amser yn ymddwyn o fewn sgôp ei bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiant ei hun.

8. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU

9. CYFEIRNODAU

9.1 ALLf63c Cytundeb Tenantiaeth Modurdy CCG

9.2 ALLp11c Proses Map CCG Gosod Modurdai

9.3 ALLf56c Ffurflen gais am fodurdy CCG

10. COFNODION

11. ADOLYGU

11.1 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bod 3 mlynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheolaethol, arfer da neu newid i unrhyw bolisïau perthnasol CCG Cyf.